BWRDD DIOGELU OEDOLION GOGLEDD CYMRU

Dydd Iau 28 Medi 2017

NEGESEUON ALLWEDDOL

- Cyflwynwyd papur i'r Bwrdd ynglŷn â graddfeydd amser cwblhau Adolygiadau Ymarfer Oedolion yng ngogledd Cymru yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Cydnabuwyd yr heriau sy'n wynebu adolygwyr sy'n cwblhau Adolygiad Ymarfer Oedolion o fewn y terfyn amser o chwe mis.

  Mae rhai o'r heriau allweddol a nodwyd yn cynnwys:
  - Adnabod adolygwyr ar ddechrau'r broses
  - Ymgysylltu â theuluoedd

- Cafwyd trafodaeth ar ganfyddiadau cychwynnol Adolygiad Cenedlaethol AGGCC o faterion diogelu oedolion. Mae'r themâu allweddol a nodwyd yn cynnwys:

  - Yr angen i sicrhau bod pobl mewn perygl a chynrychiolwyr teulu yn cymryd rhan, trin pobl mewn perygl fel partneriaid cyfartal, nodi a chofnodi eu canlyniadau dewisol a sefydlu'r angen am eiriolaeth

  - Gwaith i'w wneud o ran deall y gwahaniaeth rhwng diogelu a gofal gwael

  Mewn ymateb i'r canfyddiadau hyn, bydd y Bwrdd yn cynnal archwiliadau aml-asiantaeth yn ystod 2017/18.

- Darparwyd adborth gan Bennaeth Dros Dro Diogelu ynglŷn â datblygiadau mewn perthynas â diogelu o fewn BIPBC.

- Diweddariad pellach ar y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yng ngogledd Cymru yn ystod yr Wythnos Ddiogelu Genedlaethol.